DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

# A ninnau ar drothwy'r Nadolig, gofynnwn i chi feddwl yn ofalus am yr hyn y '**dylech**' ei wneud, yn hytrach na'r hyn y '**cewch**' ei wneud.

Mae'r coronaferiws yn carlamu trwy Gymru yn gyflymach nac ar unrhyw adeg arall yn y pandemig.

Mae ein gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau anferthol. Maen nhw'n gweithio ddydd a nos i ofalu am bobl a'u diogelu.

Mae'r gweithwyr rheng flaen yn rhoi ein hiechyd a'n gofal ni gyntaf, yn ddyddiol. Ond wrth i'r feirws barhau i ledaenu, tyfu hefyd mae'r pwysau ar ein Gwasanaeth Iechyd. Rhaid inni wneud popeth yn ein gallu i amddiffyn y GIG ac achub bywydau.

Mae'r feirws yn cael effaith fawr ar ein gwasanaethau argyfwng hefyd.

Dros yr wythnosau nesaf, mae angen inni sicrhau eu bod nhw yno i ni pan fo gwir angen, a gwir argyfwng.

**Diolch o galon i bob un ohonoch sy'n dal ati i ddilyn y rheolau.**

Yn anffodus, wrth i nifer yr achosion coronafeirws godi'n uwch eto, a bygythiad ychwanegol yr amrywiolyn newydd yn ei gwneud yn haws i'r feirws drosglwyddo i eraill, mae mwy fyth o debygrwydd y byddwn ni'n dal y feirws ofnadwy hwn a'i basio i eraill.

I gadw eich hun a'ch hanwyliaid yn ddiogel y Nadolig hwn, ddylech chi ddim cymysgu â phobl eraill.

I'r rhan fwyaf o bobl bydd y feirws yn achosi salwch ysgafn, ond mae llawer – ein rhieni, ein neiniau a'n teidiau – a allai fynd yn ddifrifol wael, neu farw.

Mae gormod o deuluoedd wedi colli pobl i'r feirws erchyll hwn. Ac os na weithredwn ni nawr, bydd rhagor yn marw.

Bydd ein gweithredoedd ni dros y Nadolig ac yn yr wythnosau a misoedd nesaf yn effeithio ar Gymru am flynyddoedd.

**Dyma erfyn ar bawb i feddwl yn ofalus cyn gweithredu, i ddiogelu ein gwasanaethau brys a'n cyrff cyhoeddus fel eu bod nhw yno i ni pan fo gwir angen.**

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cardiff and Vale University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Heddlu Gwent Police
Heddlu Gogledd Cymru North Wales Police
South Wales Police Heddlu De Cymru
Heddlu Police Dyfed Powys
The Welsh NHS Confederation Conffederasiwn GIG Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru South Wales Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru North Wales Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Mid and West Wales Fire and Rescue Service
CLILC • WLGA
GIG Cymru NHS Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government

41927 © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru